**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL A GYNHALIWYD**
**AR DDYDD IAU 19/10/2017**
**YN LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**

Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol.
Croesawyd y Cyngh. Alun Price-Jones i'r Cyfarfod, yr aelod newydd ei gyfethol ar gyfer Cyngor Cymuned Ystrad Fflur: Ward Caron Uwch Clawdd. Ymrwymodd i'r Datganiad Derbyn Swydd a'r Cod Ymddygiad.

**2. YN BRESENNOL**

Y Gyngh. Clare Hughes (Cadeirydd); Y Gyngh. Angharad Jones (Dirprwy-Gadeirydd); Y Cyngh. John Jones; Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Wil Lewis, Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Y Cyngh. Doug Rowbotham a'r Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies.

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Ymddiheurodd Y Cyngh. Non Jones a'r Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCC yr Heddlu) John Evans am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

**4. MATERION YN YWNEUD Â'R HEDDLU**

Bu i aelodau fynegi consyrn parthed y broblem cyffuriau sy'n bodoli'n yr ardal. **PENDERFYNWYD** trafod y mater ymhellach â'r SCC yr Heddlu John Evans.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.

**6. Cofnodion y cyfarfod o'r 21ain o Fedi 2017. Cynigiwyd; (Angharad Jones); Eiliwyd (y Cyngh. Gareth Owen) a PHENDERFYNWYD** eu bod yn gofnod cywir arwahan i'r canlynol.
**Cofnod 7.2:** Paneli wedi eu torri o fewn y Lloches Bws; y gost amcangyfrifedig am y gwaith o atgyweirio'r 2 ddarn oedd £100 ac nid y glud ei hun.
Cytunwyd a'u llofnodwyd fel cofnod cywir gan y Gyngh. Clare Hughes.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Glan-yr-Afon:** Trafodwyd y llwybr ar hyd glan yr afon. Cyfeiriwyd at y gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Gofrestrfa Tir ynghynt yn y flwyddyn mewn perthynas â'r darn o dir a elwir yn Glan yr Afon.
Nid yw'r ardal wedi ei gofrestu gan y Gofrestrfa Tir. Y mae'r Cyngor Cymuned yn talu am 3 toriad y mis @ £40 y toriad. **PENDERFYNWYD**: i glustnodi sylw i'r mater yn ystod y cyfarfod nesaf ac i ofyn am gyngor gan y Cyngh. Non Jones. Bydd y Gyngh. Angharad Jones a'r Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies yn cerdded yr ardal i asesu'r sefyllfa ymhellach.

**7.2 Mae angen torri coeden ger y bont ger Maesydderwen;** holwyd petai'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol am dalu'r gost sy'n gysylltiedig â thorri'r goeden.

**7.3 Cais am: Bont i Gerddwyr ochr yn ochr â phont hanesyddol Pontrhydfendigaid**
Bu i'r Gyngh. Clare Hughes drefnu Deiseb i gynyddu diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardal hon a gofynnodd am bont ar gyfer cerddwyr ger y bont hanesyddol Pontrhydfendigaid. Anfonwyd y Ddeiseb, a oedd wedi cynnwys 200 o enwau, at Gyngor Sir Ceredigion. Dywedwyd yn yr ymateb gan GSC fod peirianwyr ar hyn o bryd yn asesu amodau'r bont ac yn argymell atebion priodol. Bydd CSC yn diweddaru'r Cyngor Cymuned ar ôl i'r broses ddod i ben. **PENDERFYNWYD** gofyn am gyfarfod safle. Dim Datblygiadau'n ystod y cyfarfod hwn. Cytunwyd i gysylltu a Chyngor Sir Ceredigion unwaith yn rhagor.

**7.4 Arolwg Parc Adroddiad Rospa 2107**
Bu i ROSPA gynnal archwiliad parc yn ystod mis Mehefin am ffi o £66.50. Dosbarthwyd yr Adroddiad ymysg aelodau. Mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i afael â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad.
Mewn ymateb i'r llythyr gan Heulwen Pugh yn ystod y cyfarfod blaenorol, parthed cyflwr y matiau diogelwch du, sy'n gadael staeniau du ar ddillad

plant, penderfynwyd darganfod cost matiau newydd. Roedd y Cyngh. John Jones wedi cysylltu â Mr Gareth Jones, Bethesda, y darparwr presennol; dywedwyd bod y matiau newydd yn ddrud iawn. Opsiwn arall fyddai defnyddio "pressure-washer" ar y matiau. Cytunwyd i ailystyried y sefyllfa yn ystod mis Mawrth 2018.

**7.5** **Grant Gwyrdd, CS Ceredigion:** Adroddwyd bod y Banc Boteli yn aml yn llawn i'r ymylon a gadewir poteli ger y Banc Poteli. **PENDERFYNWYD** darganfod tybed a ellid arddangos arwyddion ger y Banc Poteli o dan nawdd y Grant Gwyrdd i annog pobl i ddileu'r arfer hwn. Gallai Swyddog Gwarchod yr Amgylchedd CSC ddarparu arwyddion mewn perthynas â gwibdipio (fel rhan o'r grant) ac y mae'n barod i weithio gyda'r Cyngor Cymuned i'w gosod yn y mannau perthnasol. **PENDERFYNWYD** yn ystod cyfarfod cynt i gysylltu â ChSC i geisio trefnu cyfarfod safle gyda'r Swyddog perthnasol i drafod ymhellach. Y Cynghorydd Clare Hughes a'r Gyngh Laura Jones i fynychu'r cyfarfod. *Dim Datblygiadau. i geisio diweddariad oddi wrth y Cyngor Sir.*

**7.6** **Argymhellodd Archwiliad Grant Thornton Cyngor Cymuned Ystrad Fflur ar** gyfer y Flwyddyn Ariannol 2016-17 ei bod yn ofynnol i'r Cyngor Cymuned gael gwefan mewn lle yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
Gwnaeth y Gyngh. Laura Jones ymholiadau pellach ynglŷn â darparu gwefan ar gyfer y Cyngor Cymuned. Ffi flynyddol WordPress https://wordpress.com oedd £10.00 a ffi cynnal y mis o £3 ychwanegol = £46 y flwyddyn. **PENDERFYNWYD** derbyn y cynnig hwn. Cytunwyd ar yr enw parth fel www.ccystradfflurcc (.co.uk?). Bydd y Gyngh. Laura Jones yn symud y mater yn ei flaen. Trosglwyddir cofnodion / agendâu / manylion cyswllt yr aelodau yn cael i'r safle ar y we.

**7.7** **Baw Cŵn -** parheir i fod yn broblem o fewn y Pentref.

**7.8** **Rhoddodd gontractwyr goleuadau stryd CSC sylw** i'r uned golau SL11-1166 ar y 13 Medi 2017 a gosod cell newydd a lamp. Mae CSC yn bwriadu gosod llusernau newydd ar ei asedau, ac mae'r uned hon ar y rhestr aros. Mae'r contractwyr yn aros amdanynt. Os bydd yr uned goleuadau'n methu eto, gellir hysbysu CSC ar (01545) 570 570.

**7.9** **Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**: Dim gwybodaeth bellach ar gael yn ystod y cyfarfod hwn.

**7.10** **Gwasanaeth Sul Cofio, Dydd Sul 12 Tachwedd 2017 @ 11am, Cofeb Rhyfel, Pontrhyfendigaid.** Cytunwyd cysylltu â'r Parch. Aled Lewis i ofyn iddo i gymryd gofal am y Gwasanaeth, unwaith eto, eleni. Gwnaeth y Cyngh. John Jones ddarpariaeth ynghylch y Blethdorch. Penderfynwyd gofyn i Mr Lyn Ebenezer a allai osod y blethdorch a dweud ychydig eiriau. Y flwyddyn nesaf, cynigiwyd bod disgyblion yr ysgol gynradd yn cymryd rhan.
**Cytunwyd ar y canlynol:** Darllen enwau'r milwyr a syrthiwyd: Y Cyngh. Gareth Owen a'r Cyngh. Doug Rowbotham.
**Gweddiau:** Y Cyngh. John Jones (Cymraeg); Y Cyngh. Sirol Ifan Lloyd-Davies (Saesneg)
**Darllen o'r Ysgrythur:** Y Gyngh. Mair Jones (Cymraeg); Y Gyngh. Clare Hughes (Saesneg)
**Hefyd i ofyn** i John Jenkins petai'n gytun i chwarae'r offeryn eto eleni.

**8.** **GOHEBIAETH**

**8.1** **Un Llais Cymru:** Cyfarfod Ardal Ceredigion: Dydd Mercher 18fed o Hydref 2017 am 7pm, Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Penmorfa, Aberaeron.

**8.2** **Mae Adroddiad Blynyddol drafft** y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19 bellach wedi'i gyhoeddi ar gyfer

ymgynghori ac mae ar gael ar wefan y Panel drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig: http://gov.wales/irpwsub/home/publication-reports/financial-year-2018- 19 /?skip=1&lang=cy. Mae Adran 13 yn ymwneud yn benodol â Chynghorau Cymuned a Thref. Ymatebion i'w derbyn erbyn 29 Tachwedd 2017.

**8.3** **Ymgynghoriad ar Gynllun Drafft Lleol Lles Ceredigion:** Cyngor Sir Ceredigion: dyddiad cau hanner dydd, 3ydd Ionawr 2017.

**8.4** **Panel yr Adolygiad Annibynnol**: a sefydlwyd i ystyried rôl Cynghorau Cymuned a Thref yn y dyfodol ac yn gwneud argymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yr hydref nesaf. Fel man cychwyn, gofynnwyd 4 cwestiwn craidd; gellid hefyd anfon darlun ehangach a syniadau mwy manwl at yr Adolygiad.CTC.Review@gov.wales

**8.5** **Gohebiaeth Arall**: Er Gwybodaeth Yn Unig.

**9. CYLLID**

**9.1** **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: mae cyfrif ar wahân yn bodoli ar hyn o bryd ond ni dderbyniwyd llyfr siec; caiff arian ei dynnu allan o'r prif gyfrif.

**9.2** **Cyflog y Clerc** Medi 2017 £155.07

**9.3** **Cyllid a Thollau EM** Medi 2017 £38.76

**9.4** **Archwiliad Grant Thornton am y flwyddyn ariannol 2016**-17 £225.00

**9.5** **Plethdorch d/l y** Cyngh. John Jones £25.

**9.6** **Stampiau/papur/rhyngrwyd/inc 6 mis** £173.71 (gan gynnwys TAW)

**9.7** **Llogi Neuadd Goffa Tregaron:** Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad £5

**10. CYNLLUNIO**

**10.1** **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion Cyfarfod diweddar.

**10.2** **Cyngor Sir Ceredigion:** Cais Cynllunio: A170937: Cynnig: Ailwynebu 100 metr sgwâr o fynedfa bresennol y goedwig o garreg llwyd wedi'i falu i darmac du. Lleoliad: Coed Dolgoed; Pontrhydfendigaid.
Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiadau.

## 11. UNRHYW FATER ARALL

**11.1** **Mae anghydfod** wedi codi rhwng perchnogion dau eiddo preifat yn y pentref parthed gwter eu cartrefi. Cytunwyd i gysylltu ag Un Llais Cymru i ofyn am gyngor proffesiynol mewn perthynas ag a ddylai'r Cyngor Cymuned ymyrryd mewn materion personol fel hyn. Ystyriwyd ceisio cyngor Cynghorydd Sirol cyfagos.

**11.2** **Nid yw'r Blwch-Llythyron yn Ffair Rhos wedi'i beintio:** i atgoffa'r Post Brenhinol.

**11.3** **Abaty Newydd:** mynegwyd consyrn mewn perthynas â ble oedd yr arwyddion cyflymder wedi eu gosod.

**11.4** **Mwswgl o fewn y fynwent,** Mynachlog: gofynnwyd petai’r defnydd o’r Hylif Jeyes yn effeithiol i gael gwared â’r mwswgl. Teimlwyd mai mater i'r Ymddiriedolwyr oedd hwn.

**11.5** **Cyflwynwyd arwyddion ger** Waunfelin a Dolyrychain yn rhybuddio gyrrwyr bod y ffordd yn culhau ger y lleoedd hyn. Awgrymwyd bod arwyddion yn cael eu harddangos ar y corneli.

**11.6** **Hysbyswyd aelodau y cynhelir y gwasanaeth olaf (Cynhaeaf)** yn Eglwys Dewi **Sant**, Pontrhydfendigaid, nos Fawrth 24ain o Hydref am 6 o'r gloch**.**

***Daeth y Cyfarfod i ben am* 8.52pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : Dydd Iau 16eg o Dachwedd 2017 at 7pm.**

==================================================

(Arwyddwyd/Dyddiad )